Cyngor Celfyddydau Cymru

# Cronfa Adferiad Ddiwylliannol 3

## Canllawiau i Sefydliadau Celfyddydol

Ionawr 2022

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys


Cronfa Adferiad Ddiwylliannol 3 .... 4

Beth yw nod y gronfa? .... 6

Cymhwysedd .... 7

Am faint y gallaf ymgeisio? .... 9

Cymorthdaliadau cyhoeddus Prydain .... 9

Dyddiadau cau .... 10

Beth yw'r blaenoriaethau? .... 10

Y Contract Diwylliannol .... 10

Am beth y gallaf ymgeisio? .... 12

Beth yw'r meini prawf? .... 13

Beth yw'r broses ymgeisio? .... 14

**Pa gwestiynau sydd?** .... 15

Pa dystiolaeth arall fydd ei hangen? .... 18

Adroddiad diweddu .... 19

Manylion banc .... 19

Llywodraethu sefydliadau .... 19

Cymorthdaliadau cyhoeddus .... 19

Cyflog Teg .... 20

Cyfle am gwestiynau .... 21

Rhyddid Gwybodaeth .... 22

Cwyno .... 22

Atal twyll .... 22

Diogelu data .... 22

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Darllen ac Arwyddeg a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd, gallwn eich cefnogi wrth ymgeisio. Cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru i drafod sut.

Rydym ni'n gweithredu polisi cyfle cyfartal.

## Cronfa Adferiad Ddiwylliannol 3

**Mae'r canllawiau'n disgrifio'r broses i sefydliad celfyddydol cymwys ymgeisio am arian.**

Diben y gronfa yw cefnogi sefydliadau sydd mewn trafferthion a pherygl o gau neu golli swyddi, oni chânt gymorth pellach – rhaid i'r perygl fod o ganlyniad uniongyrchol i effaith y pandemig.

Dylech fod yng Nghymru (er elw ac nid er elw) ac wrthi'n ceisio cynnal lefel sylfaenol o weithgarwch sy'n hygyrch i'r cyhoedd hyd at Fawrth 2022.

Dylech allu dangos nad yw eich sefydliad yn gallu defnyddio arian wrth gefn, neu drefniadau credyd/ffynonellau arian eraill.

Yn gyffredinol, rydym ni'n disgwyl i ymgeiswyr i'r gronfa fod eisoes wedi llwyddo mewn cais i ail rownd ein Cronfa Adfer Ddiwylliannol (a ddigwyddodd ym Mai 2021 ac y cyfeirir ati yma wedi hyn fel CRF2). Os na chawsoch arian drwy CRF2, ond yn awr mewn sefyllfa ariannol anoddach, esboniwn dan Gymhwysedd beth sydd raid ichi wneud i gael caniatâd i ymgeisio. Peidiwch â gwneud cais heb ganiatâd.

Gallwch ymgeisio am grant nad yw'n ad-daladwy o hyd at £100,000 i gefnogi eich gweithgarwch hyd at 14 Chwefror 2022. Gall lleoliad celfyddydol proffesiynol yng Nghymru, neu sefydliad celfyddydol sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd a chael tâl am hynny  (fel sefydliadau celfyddydol cymunedol) hefyd gynnwys costau ôl-weithredol yn ôl i 1 Hydref 2021. Mae hyn yn cydnabod yr heriau penodol a oedd eisoes yn cael eu hwynebu gan incwm is y sefydliadau hyn hyd yn oed cyn cyfyngiadau ychwanegol ym mis Rhagfyr 2021.

Dylai eraill gynnwys costau o 1 Rhagfyr 2021 yn unig.Os nad yw'r terfyn yn bodloni eich amgylchiadau, siaradwch â ni.

Mae'r pandemig yn effeithio ar lawer o sefydliadau. Ond mae'n bwysig bod arian yn cael ei roi i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Nod y gronfa yw galluogi sefydliadau i oroesi ac nid digolledu elw a ostyngwyd dros dro. Felly, byddem yn gofyn ichi feddwl yn ofalus a oes angen ichi ymgeisio i'r gronfa.

Rhaid ichi barhau i gyflawni eich Contract Diwylliannol i annog ffyrdd newydd o weithio a sicrhau rhagor o amrywiaeth o ran rheoli a rhaglennu eich sefydliad ac yn ei weithlu.

Bydd disgwyl i sefydliadau a gaiff grant ddangos ymrwymiad i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru a'i Rhaglen lywodraethu.

Mae holl gymorth y gronfa'n ddewisol yn unig ac mae'n debyg y bydd llawer o gystadleuaeth amdano. Nid yw cyflwyno cais yn gwarantu'r holl swm a geisiwch neu rywfaint ohono.

Ein bwriad yw cynnal proses syml a chyflym gan brosesu ceisiadau fel y caiff ymgeiswyr llwyddiannus arian cyn diwedd Mawrth 2022. Os yw nifer y ceisiadau a gawn yn gwneud hyn yn amhosibl, rhoddwn wybod ichi cyn gynted â phosibl.

Ar ôl Mawrth 2022, rhaid ichi gyflwyno Adroddiad Diweddu byr sy’n nodi sut y gwariwyd yr arian. Bydd derbyn yr Adroddiad Diweddu yn sbarduno unrhyw daliad terfynol o'ch grant.

## Beth yw nod y gronfa?

Ei nod yw helpu sefydliadau i osgoi mynd i'r wal oherwydd y pandemig. Ni fydd y gronfa'n cefnogi rhagor o weithgarwch uwchlaw'r lefelau arferol, ac ni fydd ychwaith yn eich digolledu am y gwahaniaeth rhwng lefelau gweithgarwch cyfredol a rhai arferol. Rhaid ichi ddangos eich bod mewn perygl o gau neu golli swyddi. Os yw eich trosiant yn ddigon i gefnogi eich gwaith parhaus hyd at Fawrth 2022, er efallai ar lefel is nag a fyddai fel arfer, peidiwch â chyflwyno cais. Rydym ni'n cydnabod bod pwysau parhaus y pandemig wedi creu problemau ariannol sylweddol i sefydliadau celfyddydol. Mynd i'r afael â'r pwysau yw prif nod y gronfa.

Bydd y gronfa'n ystyried cynorthwyo sefydliadau celfyddydol o bob maint sy'n cyflogi staff gan gynnwys mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol.

Wrth ymgeisio, gallwch gynnwys cyfran o'r costau cyfalaf angenrheidiol i wneud eich lleoliad a'ch cyfleusterau'n ddiogel o ran y pandemig os na allech fel arall ei fforddio heb roi eich sefydliad mewn perygl o gau neu golli swyddi. Gallwch gynnwys yn eich cais am uchafswm o £5,000 tuag at gostau cyfalaf.

Ni allwn gefnogi pawb, felly bydd y gronfa'n targedu'r rhai sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo gweithgarwch celfyddydol proffesiynol sy'n hygyrch i bobl Cymru ac sy'n dioddef pwysau ariannol sylweddol.

Ni ddylai'r arian ddyblygu unrhyw fath arall o arian gan Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Mae'n hanfodol y gallwn gefnogi'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf. Rydym ni'n ymwybodol o'r problemau ariannol sylweddol sy'n wynebu llawer o sefydliadau, yn enwedig lleoliadau, felly rydym ni am gefnogi cynifer o geisiadau cymwys ag y gallwn.

Bydd angen i geisiadau fodloni'r meini prawf. Ond, efallai y gwelwn fod nifer y ceisiadau yn fwy na'r arian sydd ar gael. Y meini prawf asesu fydd y sail benderfynu.

Esbonnir y meini prawf yn ddiweddarach yn y canllawiau.

## Cymhwysedd

Yn gyffredinol, rydym ni'n disgwyl i ymgeiswyr i'r gronfa fod eisoes wedi llwyddo mewn cais i ail rownd ein Cronfa Adfer Ddiwylliannol (a ddigwyddodd ym Mai 2021). Os na chawsoch arian drwy CRF2, cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru i gael caniatâd i ymgeisio. Peidiwch â gwneud cais heb ganiatâd.

Rhaid i bob ymgeisydd hefyd fodloni'r meini prawf, rhaid ichi fod yn:

ac a gyfansoddwyd yn ffurfiol fel un o'r canlynol:

- cwmni cyfyngedig drwy warant
- elusen gofrestredig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
- Sefydliad Corfforedig Elusennol
- Cwmni Buddiannau Cymunedol
- cwmni cyfyngedig drwy gyfranddaliadau (gweler meini prawf budd cyhoeddus isod)
- cymdeithas anghorfforedig
- partneriaeth, gan gynnwys Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig
- prifysgol neu gorff cyhoeddus arall sy'n cynnal gweithgarwch diwylliannol
- cyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru drwy ddarparu gweithgarwch creadigol y gall pobl eu mwynhau a chymryd rhan ynddo
- gweithio'n bennaf (50%+) yn un o'n disgyblaethau a ariannwn (cerddoriaeth, dawns, theatr, llenyddiaeth, y celfyddydau gweledol a chymhwysol, y celfyddydau cyfunol, celf ddigidol)
- gallu dangos hanes (yn y tair blynedd diwethaf) o ddarparu gweithgarwch celfyddydol sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac sydd â budd i'r cyhoedd
- cyflawni'r rhan fwyaf o'ch gwaith (60%+) yng Nghymru
- nad ydych chi'n methu o ran unrhyw gytundeb ariannol neu unrhyw ofynion hwyr ar unrhyw arian arall gan y Cyngor neu Lywodraeth Cymru

- heb gael cadarnhad eich bod wedi torri rheoliadau'r pandemig blaenorol neu gyfredol. Os cawn wybod eich bod yn torri unrhyw reoliadau yn ystod cyfnod y grant, rydym ni'n cadw'r hawl i ofyn am ad-daliad llawn

Os ydych chi'n sefydliad sy'n cyflawni gweithgarwch er elw, ni allwch ddefnyddio'r grant a gewch i gefnogi unrhyw un o'ch gweithgarwch gwneud elw neu ategu elw masnachol.

Nid yw'r gronfa'n cefnogi:

- Unigolion, ymarferwyr llawrydd nac unig fasnachwyr
- Sefydliadau sy'n eiddo uniongyrchol i awdurdod lleol neu'n cael eu rheoli gan un
- Gwyliau a digwyddiadau
- Lleoliadau a bandiau cerddoriaeth llawr gwlad, lleoliadau comedi, cyhoeddwyr, ffilm a theledu, diwydiannau creadigol
- Gwasanaethau cymorth technegol
- Sinemâu annibynnol, ar wahân i'r rhai sy'n cyflwyno ffilmiau fel rhan fach o raglen amlgelfyddydol (gallai sinemâu annibynnol nad ydynt yn rhan o leoliad amlgelfyddydol mwy ymgeisio am arian â'r ffurflen gais ar wahân – darllenwch y canllawiau ar wahân i weld a ydych chi'n gymwys)
- Rydym ni'n disgwyl i ymgeiswyr ymddiffinio a ydynt yn lleoliad amlgelfyddydol (sy'n dangos ffilmiau neu'n cynnwys oriel fel rhan o'u harlwy) neu sinema neu oriel yn bennaf (lle mae darpariaeth gelfyddydol arall yn eilradd neu absennol). Nid yw'r penderfyniad yn seiliedig ar lefelau o incwm am fod rhai mathau o weithgarwch yn dod â rhagor o incwm nag eraill. Byddem yn derbyn ceisiadau gan bob lleoliad amlgelfyddydol oni bai bod y lleoliad yn gweld ei hun yn bennaf fel sinema neu oriel.

Nid yw'r arian i gymryd lle arian rheolaidd gan awdurdod lleol neu gorff cyhoeddus arall. Byddem yn disgwyl i arian o'r math barhau ar lefelau hanesyddol. Y bwriad yw cefnogi sefydliadau sydd mewn perygl ariannol uniongyrchol ac nad ydynt yn gallu galw ar arian wrth gefn neu ffynonellau incwm eraill.

Os ydych chi'n ysgol, nid ydych yn gymwys gan na fyddwch yn gallu bodloni'r meini prawf eraill sy'n berthnasol i'r gronfa - fel y gofyniad i fod yn gweithio'n bennaf (50%+) yn un o'n disgyblaethau a ariannwn.

## Am faint y gallaf ymgeisio?

- Hyd at £100,000, i'w ddefnyddio erbyn 31 Mawrth 2022.
- Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y gallwch wneud cais am £500,000 (gweler isod am fanylion)

Dyma fwyafswm yn hytrach na tharged i anelu ato. Dylech fod yn glir yn eich cais am y rheswm mae angen y swm arnoch. Rydym ni'n rhagweld y bydd y rhan fwyaf o sefydliadau yn ymgeisio am lai na £50,000.

Gwnewch yn siŵr bod eich cais o fewn y mwyafswm. Os byddwch yn ymgeisio am fwy, efallai y bydd yn rhaid gwrthod eich cais yn llwyr.

Mewn amgylchiadau **eithriadol**, gall sefydliadau ofyn am ganiatâd i ymgeisio am fwy na £100,000. Os nad yw'r mwyafswm yn bodloni eich amgylchiadau, siaradwch â ni. E-bostiwch: grantiau@celf.cymru gyda'ch rhesymau clir a chyllideb gysylltiedig. Rhaid gwneud hyn o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad cau'r gronfa. Ni fyddwn, dan unrhyw amgylchiadau, yn ystyried ceisiadau am ragor na'r £100,000 os nad ydych wedi cael caniatâd.

Yr uchafswm y gallwn ei ariannu mewn amgylchiadau eithriadol fydd £ 500,000. Dim ond mewn achosion eithriadol y bydd caniatâd i ymgeisio am dros £100,000 a lle gallwch ddangos y bydd grant is yn peryglu parhad eich sefydliad

Meddyliwch yn ofalus cyn ymgeisio a yw'r arian yn wirioneddol angenrheidiol. Mae'n bwysig bod arian yn cyrraedd y rhai sydd â'r angen mwyaf felly cadwch hynny mewn cof.

## Cymorthdaliadau cyhoeddus Prydain

Mae rheolau Prydain yn cyfyngu ar roi grantiau a manteision economaidd eraill gan awdurdodau cyhoeddus ar sail ddewis i sefydliadau lle gallai hyn ystumio cystadleuaeth a masnach. Gelwir y rheolau yn **Rheolau Cymhorthdal Prydain**.

Mae rhagor o wybodaeth am gymorthdaliadau yn ddiweddarach yn y canllawiau.

Nid yw'r wybodaeth uchod yn gyngor cyfreithiol. Efallai yr hoffech gael cyngor cyfreithiol i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r rheolau.

## Dyddiadau cau

Mae'r gronfa'n agor i geisiadau ar-lein **ddydd Mercher 12 Ionawr 2022** a'r dyddiad cau fydd **5pm ddydd Mercher 26 Ionawr 2022**.

**Os bydd angen newid y dyddiadau, cyhoeddwn y rhai newydd ar ein gwefan. Edrychwch ar ein gwefan i gael y wybodaeth ddiweddaraf.**

## Beth yw'r blaenoriaethau?

Mae Cymru yn wynebu nifer o broblemau cymdeithasol ac economaidd. Mae llawer yn dod o'r gorffennol. Ond mae penderfyniad Lywodraeth Cymru i sicrhau nad yw'r genhedlaeth bresennol, drwy ddifaterwch neu ddiofalwch, yn gadael y problemau i'r genhedlaeth nesaf wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn wlad deg, ffyniannus a chynaliadwy, gan wella safon bywyd pobl yn ei holl gymunedau a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Rhaid i'r sefydliadau a ariannwn ddangos sut y maent yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhopeth a wnânt, gan gynnwys llywodraethu, y gweithlu a thrwy eu gwaith.

Rydym am i ragor o bobl mewn cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu'n llai gan y celfyddydau gael cyfleoedd i'w mwynhau a chymryd rhan ynddynt. Rydym ni'n rhoi pwys arbennig ar sefydliadau sy'n dangos ymrwymiad i weithio gyda phobl F/fyddar, anabl a niwroamrywiol, dduon, Asiaidd ac ethnig amrywiol a siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn disgwyl ichi ddangos yn eich cais sut rydych chi wedi ystyried y materion yma ac yn bwriadu eu rhoi ar waith yn y dyfodol.

## Y Contract Diwylliannol

Bydd disgwyl i'r rhai sy'n cael cymorth y gronfa barhau i weithio yn ôl egwyddorion Contract Diwylliannol Llywodraeth Cymru.

Ei weledigaeth yw Cymru sy'n deg, ffyniannus a hyderus, gan wella safon bywyd ei phobl ym mhob cymuned. Nod y Contract Diwylliannol yw annog ymgeiswyr i fabwysiadu ymrwymiadau newydd i ddefnyddio buddsoddiad cyhoeddus â phwrpas cymdeithasol. Bydd hyn yn adeiladu ar Gontract Economaidd presennol Llywodraeth Cymru.

Y gweithgarwch a ddisgwyliwn ichi ei ddangos yn eich cynlluniau at y dyfodol yw:

- **Posibiliadau tyfu** – datblygu gweithgarwch cadarnhaol i gefnogi gwytnwch, arallgyfeirio ac addasu gwaith drwy gynhyrchu incwm, rhannu adnoddau a

manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymgysylltu a chefnogi gweithwyr creadigol llawrydd yng Nghymru

- **Gwaith Teg** – sicrhau cyfraddau cyflog priodol, amrywiaethu bwrdd a gweithlu i gynyddu'r cyfranogiad ledled y sefydliad a'r gwaith gan bobl dduon, Asiaidd ac ethnig amrywiol, F/fyddar, anabl ac â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys siaradwyr Cymraeg

- **Hybu iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle** – datblygu sgiliau, dysgu a mentrau iechyd a lles yn y gweithle a'r gymuned gan gynnwys cefnogi mentrau'r celfyddydau ac iechyd

- **Lleihau eich ôl troed carbon** – mesurau i wella cynaliadwyedd amgylcheddol a lleihau eich ôl troed carbon

## Am beth y gallaf ymgeisio?

Gallwch ymgeisio os ydych yn wynebu problemau ariannol sylweddol o ganlyniad i effaith barhaus y pandemig. Rhaid defnyddio'r arian cyn Mawrth 2022 i dalu am waith sy'n hanfodol i gynnig eich gwasanaethau i'r cyhoedd, lle nad yw'r gost o wneud hynny fel arall yn fforddiadwy heb roi eich sefydliad mewn perygl o gau neu golli swyddi, o ganlyniad i effaith y pandemig, megis costau busnes sefydlog fel:

- staff, gan gynnwys y rhai a oedd gynt ar seibiant dan Gynllun Cadw Swyddi Llywodraeth Prydain
- rhent – ac eithrio gwyliau rhent landlordiaid
- diogelwch, cynnal a chadw adeiladau, yswiriant
- taliadau sefydlog ar gyfer cyfleustodau – dŵr, trydan, nwy, ffôn a rhyngrwyd
- costau cytundebol ymroddedig – systemau TG, offer swyddfa
- costau cyfreithiol a phroffesiynol - cyflogres, cyfrifeg

## Beth yw'r meini prawf?

Dyma’r meini prawf asesu:

- graddau a brys yr angen ariannol yn eich cais
- a’ch dull sefydliadol o:
- ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg yn eich gwaith yn y dyfodol
- ymgorffori cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol yn eich gwaith yn y dyfodol
- cynnwys cyfleoedd ar gyfer gweithwyr creadigol llawrydd ac artistiaid unigol
- profi bod gweithwyr yn cael yr isafswm cyflog cenedlaethol a bod rhai llawrydd yn cael o leiaf yr isafswm ffi y cytunir arni gyda'r undeb llafur neu'r gymdeithas broffesiynol berthnasol

## Beth yw'r broses ymgeisio?

1. Rhaid ichi gofrestru ar Borth ein system rheoli grantiau cyn y gallwch ymgeisio. (Os ydych eisoes wedi cofrestru, nid oes angen ei wneud eto.)

2. Rhaid ichi lenwi a chyflwyno ffurflen gais syml ar-lein sydd [yma](). Os na allwch gael gafael ar y ffurflen ar-lein, neu os oes angen cymorth pellach arnoch i ymgeisio, cysylltwch â ni: grantiau@celf.cymru

3. Ar ôl inni gael eich cais, anfonwn gydnabyddiaeth atoch.

4. Penderfynwn a ydych yn gymwys ar ôl darllen eich gwybodaeth. Efallai y gofynnwn am wybodaeth ychwanegol. Os bydd unrhyw wybodaeth (fel dogfen lywodraethol neu fanylion banc) ar goll, cysylltwn â chi. Bydd gennych hyd at 5 diwrnod gwaith i lenwi unrhyw fylchau neu efallai y gwrthodwn eich cais.

5. Mae'r angen cynyddol gan lawer o sefydliadau yn golygu y byddwn yn cynnal gwiriadau cymhwysedd sylfaenol ac yn cynnig blaenswm o 45% o'r swm cymwys y gofynnwyd amdano i'r rhai sy'n pasio'r gwiriadau hyn.

   Dylech fod yn ymwybodol y byddwn yn parhau i gynnal asesiad llawn o'ch cais ar ôl gwneud cynnydd. Os byddwn wedyn yn nodi na fyddech wedi derbyn y swm y gofynnoch amdano, efallai y byddwn yn lleihau taliadau yn y dyfodol neu hyd yn oed yn gofyn am ddychwelyd rhywfaint neu'r holl flaendal.

   Felly, nid yw taliad yn awgrymu ein bod wedi asesu a chytuno i'ch cais yn llawn.

6. Os ydym wedi cadarnhau bod eich cais yn gymwys, aseswn ef.

7. Adolygwn eich cais a'ch gwybodaeth gyllidebol i sicrhau ei fod yn bodloni ein blaenoriaethau a bod y ffigyrau'n briodol.

8. Os llwydda eich cais, gofynnwn ichi gadarnhau eich bod am dderbyn y grant. Os na lwyddwch, esboniwn y rheswm.

9. Ar ôl i chi dderbyn eich grant talwn yn ôl y categorïau canlynol:

   - Ail daliad o 45% ar ôl ichi dderbyn a'r 10% sy'n weddill ar ôl derbyn Adroddiad Diweddu boddhaol

   Os oes angen amserlen dalu wahanol arnoch, gallwn ei thrafod ar ôl cadarnhau eich grant.

Ceisiwn ymateb i bob cais yn brydlon fel y gallwn dalu rhai llwyddiannus cyn diwedd Mawrth 2022 ac yn gyflymach pe gallem. Os bydd llai o staff gennym oherwydd y pandemig, cysylltwn â chi i sôn am yr amserlen newydd.

## Pa gwestiynau sydd?

Mae unrhyw sôn am 'brosiect' yn cyfeirio at eich cynnig. Mae’r gronfa’n un argyfwng. Peidiwch â chynnwys gweithgarwch prosiect yn eich cais.

Dyma fformat y ffurflen:

### Gwiriadau cyn ymgeisio

Gwybodaeth ragarweiniol a rhestr wirio cyn ymgeisio

### Cysylltu â chi

Gwybodaeth am bwy y dylem gyswlltu â nhw am y cais, eich dewis iaith a gwybodaeth am eich cyfrif banc

### Y cais

Gwybodaeth am eich cais, dyddiad dechrau a diweddu a gwybodaeth gyllidebol

### Eich sefyllfa

Disgrifiwch eich sefyllfa a sut mae’r pandemig yn effeithio ar eich busnes [3,000 nod ar y mwyaf]

Beth sy’n digwydd i’ch gwaith o ganlyniad i’r pandemig ac unrhyw reoliadau cyfredol? Sut mae'n effeithio ar y cyfnod rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2022? (Ni allwn eich ariannu os nad yw’r newid yn eich amgylchiadau yn gysylltiedig â'r pandemig.)

Beth fyddai'n digwydd i'ch sefydliad pe na chawn yr arian? Gallech gynnwys gwybodaeth am unrhyw gasgliadau neu asedau y mae gennych gyfrifoldeb drostynt a gwasanaethau na fyddai bellach ar gael a pha effaith y câi hyn ar eich defnyddwyr.

### Swm eich cais

#### Pam mae eisiau’r arian arnoch? [3,000 nod ar y mwyaf]

Sut y gwariwch yr arian i gefnogi parhad eich busnes? Beth fydd yn digwydd os na chewch yr arian? Rhowch dystiolaeth o'r angen, gan gynnwys am yr effeithiau tebygol ar eich sefydliad o ganlyniad i'r pandemig. Manylwch ar yr hyn y gallech ei wneud yn wahanol o ganlyniad i gael yr arian i fod yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn yr hir dymor.

Ni allwn eich ariannu os nad yw’r newid yn eich amgylchiadau yn ganlyniad i'r pandemig.

Esboniwch sut y cyrhaeddoch y swm a geisiwch. Hoffem wybod am y golled yr ydych yn ei hwynebu yn y cyfnod. Nid ydym am gau bylchau yn eich incwm yn unig. Yn hytrach soniwch am:

- Swm unrhyw golled ddisgwyliedig rhwng 1 Rhagfyr 2021 (neu 1 Hydref 2021 i lleoliad celfyddydol proffesiynol yng Nghymru, neu sefydliad celfyddydol sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd a chael tâl am hynny (fel sefydliadau celfyddydol cymunedol) a 14 Chwefror 2022. Dyma'r gwahaniaeth rhwng y costau a ragwelwch a'r incwm o'r cyfnod. Byddwch mor glir â phosibl am sut cyrhaeddoch y ffigwr

- Unrhyw arbedion cost y disgwyliwch eu gwneud (o ganlyniad i lai o weithgarwch, er enghraifft)

- Unrhyw gostau ychwanegol yr ydych yn disgwyl eu hysgwyddo o ganlyniad i'r sefyllfa

- Sut y defnyddiwch eich arian wrth gefn i'ch cynorthwyo? Os oes gennych arian wrth gefn, byddem yn disgwyl ichi ei ddefnyddio cyn ymgeisio i'r gronfa, oni bai eu bod yn gyfyngedig ac yn wir anhygyrch (gan gyfeirio at eich polisi arian wrth gefn lle bo hynny'n berthnasol). Ond, os yw eich arian wrth gefn yn isel, gallwch ymgeisio am arian i dalu am unrhyw golledion yn ystod y cyfnod, ond efallai y byddwn yn ystyried eich arian wrth gefn. Ni allwch ychwaith ddefnyddio'r arian i adeiladu arian wrth gefn. Disgrifiwch eich sefyllfa benodol

- Pa wariant cyfalaf sy'n angenrheidiol, os oes? Pam? Am fwyafswm o £5,000 y gallwch ymgeisio. Rhowch ddadansoddiad llawn o'ch costau cyfalaf sy'n rhan o'ch cais

Wrth ateb yr uchod, ystyriwch unrhyw gymorth arall yr ydych yn disgwyl ei gael fel nad oes ariannu dwbl yn digwydd.

## Cymorth ariannol arall

Ydych chi'n ymgeisio am gymorth ariannol o unrhyw le arall? Ydych chi'n disgwyl llwyddo? [3,000 nod ar y mwyaf]

Manylwch ar unrhyw arian brys arall yr ydych yn disgwyl ei gael o ffynonellau eraill, gan gynnwys arian gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain.

## Cyflawni ein blaenoriaethau

Sut rydych yn ymgorffori'r canlynol yn eich gwaith?

- **Cydraddoldeb, amrywiaeth a'r Gymraeg**

  Dyma gyfle ichi nodi eich gwaith i gynyddu hygyrchedd i'ch gwasanaethau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol fel pobl anabl neu grwpiau lleiafrifol i hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth. Sut rydych chi'n darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio ac ymgysylltu â'r Gymraeg? Er enghraifft, ydych chi'n cynnig cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau Gymraeg?

- **Cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol**

  Gallai enghreifftiau gynnwys modelau newydd o ddarparu gwasanaethau; datblygiadau eraill i gynnal/darparu gwasanaethau'n well; gwella effeithlonrwydd adnoddau; lleihau'r defnydd o ynni a dŵr; defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy; mynd i'r afael â bod yn ynysig yn gymdeithasol drwy gyfleoedd gwirfoddoli; defnyddio technolegau digidol a symudol i ddarparu gwasanaethau; unrhyw bartneriaethau rhanbarthol; darparu gwasanaethau i'r gymuned leol.

  Sut rydych chi'n darparu mynediad lleol i'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth? Ydych chi'n darparu cyfleoedd gwirfoddoli? Unrhyw ddigwyddiadau/gweithgarwch arbennig ar gyfer eich cymuned leol? Ydych chi'n darparu lle ar gyfer gweithgarwch cymunedol? Ydych chi'n gweithio gyda grwpiau gwirfoddol neu grwpiau trydydd sector neu eu cefnogi?

- **Cyfleoedd i bobl greadigol llawrydd ac artistiaid unigol**

- **Cyfeirio'n benodol at sut mae eich gwaith yn dangos ymrwymiad i egwyddorion** Deddf Llesiant Cenedlaethau Dyfodol (Cymru) 2015 Llywodraeth Cymru.

## Gweithlu

**Cadarnhewch fod eich gweithwyr yn cael yr isafswm cyflog cenedlaethol a bod gweithwyr llawrydd yn cael o leiaf y lefel isaf o ffi y cytunir arni gyda'r undeb llafur neu'r gymdeithas broffesiynol berthnasol.**

Faint o swyddi cyfwerth ag amser llawn y bydd yr arian yn eu diogelu? (Mae swydd gyfwerth ag amser llawn yn un 30 awr neu'n hwy'r wythnos.)

Os ydych yn gweithio gyda gwirfoddolwyr, amcangyfrifwch nifer yr oriau gwirfoddol y bydd yr arian yn eu diogelu yn y cyfnod rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2022.

## Cymhorthdal Prydain

Er mwyn inni asesu a oes angen ystyried goblygiadau Cymhorthdal Prydain yn fanylach, byddai'n ein helpu pe gallech nodi a ydych yn hyrwyddo eich sefydliad neu eich gwaith y

tu allan i Brydain. Os ydych, pa ganran o'ch cynulleidfa sy'n dod o'r tu allan i Brydain fel arfer (gan gynnwys eich cynulleidfa pan fyddwch yn perfformio y tu allan i Brydain ond heb gynnwys unrhyw ffigyrau gweld ffrydiau am ddim)? Efallai y bydd yn rhaid ichi amcangyfrif neu ei seilio ar ffigyrau’r blynyddoedd a fu.

### Celfyddyd

Gwybodaeth am y gwahanol gelfyddydau y bydd y cais yn eu diogelu.

### Targedau

Gwybodaeth am dargedau parhaus, gan gynnwys nifer yr arddangosfeydd, perfformiadau, gweithdai, a chynulleidfaoedd/mynychwyr.

### Iaith

Esboniwch yr effaith a gaiff eich cais ar y Gymraeg:

Cadarnhaol, Negyddol neu Niwtral

### Lleoliad

Ble bydd eich gweithgarwch yn digwydd?

### Cydraddoldeb

Rhowch wybodaeth monitro cydraddoldeb ar gyfer eich cais.

### Atodiadau

#### Gwybodaeth gyllidebol

Rhaid i hyn fod ar y templedi a islwythir sydd ar gael yn ein ffurflen gais - am y cyfnod rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2022.

## Pa dystiolaeth arall fydd ei hangen?

- Tystiolaeth bod gennych gyfrif banc yn eich enw cyfreithiol sy'n bodloni ein gofynion
- Tystiolaeth bod gan eich sefydliad strwythur llywodraethu sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd y gronfa

Gweler isod am ragor o wybodaeth.

## Adroddiad diweddu

Cysylltwn â chi tua diwedd Mawrth 2022 i gael Adroddiad Diweddu sy'n esbonio sut y gwarioch yr arian gan ofyn yn benodol am:

- nifer y swyddi a ddiogelwyd
- adroddiad am eich cynnydd ers gwneud eich cais

Cynhwyswch resymeg am unrhyw newidiadau i'ch cais gwreiddiol.

## Manylion banc

Rhaid i'ch cyfrif banc fodloni'n llawn ein hamodau sydd yn ein canllawiau ar-lein yma

## Llywodraethu sefydliadau

Darllenwch ein cyfarwyddyd ar wahân am Gymhwysedd a Llywodraethu. Yno esboniwn y dogfennau angenrheidiol ichi eu huwchlwytho cyn ymgeisio.

## Cymorthdaliadau cyhoeddus

Mae rheolau Prydain yn cyfyngu ar roi grantiau a manteision economaidd eraill gan awdurdodau cyhoeddus ar sail ddewis i sefydliadau lle gallai hyn ystumio cystadleuaeth a masnach. Yn sgil brecsit, mae Prydain hefyd wedi cyflwyno ei rheolau ei hun am ddarparu cymorthdaliadau, Rheolau Cymhorthdal Prydain.

Mae canllawiau am sut mae'r rheolau'n berthnasol yma a dylai ymgeisydd sicrhau y bydd y grant yn cydymffurfio â nhw.

Maent yn rheoleiddio darparu cymorthdaliadau cyhoeddus i sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgarwch economaidd (a all weithiau gynnwys y celfyddydau, treftadaeth a diwylliant). Os nad yw grant y gronfa'n 'gymhorthdal', gellir ei ddarparu heb orfod cydymffurfio â'r rheolau. Ni fydd grant yn gymhorthdal os gellir dangos nad yw'r derbynnydd yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch masnachol (gan gynnwys cynhyrchu incwm o berfformiadau). Hyd yn oed os yw'r derbynnydd yn codi tâl am ei weithgarwch, efallai y bydd yn bosibl darparu grant heb iddo fod yn gymhorthdal os yw'r taliadau dim ond yn cynrychioli mymryn o'i wir gostau.

Ni fydd grant yn gymhorthdal os na fydd yn cael unrhyw effaith ar fasnach rhwng Prydain a'r Undeb Ewropeaidd ac, er bod hyn yn brawf llym, mae'n debygol mai dim ond grantiau i'r sefydliadau celfyddydol a diwylliannol mawr ac enwog neu sy'n hyrwyddo eu gweithgarwch yn eang yn yr Undeb Ewropeaidd fydd yn dod dan y rheolau.

Gellir darparu grantiau sy'n gymorthdaliadau o hyd o'r gronfa cyn belled â bod rhai amodau penodol yn cael eu bodloni.

## Cyflog Teg

Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw cyflog isaf yr awr y mae gan bron pob gweithiwr hawl iddo yn ôl y gyfraith. O Ebrill 2016 ymlaen, cyflwynwyd Cyflog Byw Cenedlaethol i weithwyr 25 oed a hŷn. Bydd yr Isafswm Cyflog o hyd yn berthnasol i weithwyr 24 oed ac iau. Mae'n drosedd i beidio â thalu'r un o'r ddau gyflog yma neu i ffugio cofnodion talu. Os nad ydych yn talu'r un o'r ddau gyflog yma, ni allwn ystyried eich ariannu.

Dyma ganllawiau pellach: https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates

Mae'r Cyflog Byw yn gyfradd wirfoddol yr awr a bennir gan y Sefydliad Cyflog Byw (www.livingwage.org.uk) sy'n seiliedig ar gostau byw. Mae'r Sefydliad yn annog pob sefydliad i ddod yn gyflogwyr Cyflog Byw achredig.

| Pwy/dolen | Ar gyfer |
|---|---|
| a-n | Cwmni Gwybodaeth yr Artistiaid (rhai gweledol) |
| AOP | Cymdeithas Ffotograffiaeth |
| BECTU | Undeb Darlledu, Adloniant, Cyfathrebu a Theatr (technegol) |
| Ecwiti | Actorion, cantorion a dawnswyr |
| ISM | Cymdeithas y Cerddorion |
| itc | Cyngor y Theatrau Annibynnol (ymarferwyr theatr) |
| Undeb y Cerddorion | Cerddorion |
| WGGB | Urdd Awduron Prydain |
| Theatr Prydain | Staff a cherddorion theatr |

## Cyfle am gwestiynau

Dibynnwn ar onestrwydd eich ceisiadau. Atebwch bob cwestiwn yn glir a gonest. Os rhowch wybodaeth anghywir, efallai y cymerwn yr arian yn ôl wedyn neu, os ystyriwn ei fod yn dwyll, gymryd camau priodol.

I gael gwybod a ydych chi'n gymwys i ymgeisio neu os hoffech drafod y cwestiynau, cysylltwch â'n Gwasanaeth Ymholiadau drwy e-bost, ein gwefan neu'r cyfryngau cymdeithasol:

E-bost: grantiau@celf.cymru

Gwefan: ffurflen ar ein gwefan

Trydar: @celf_cymru

Ceisiwn ymateb i bawb yn brydlon.

Os hoffech inni eich ffonio'n ôl, rhowch eich rhif a threfnwn i'ch ffonio wedyn.

## Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni wedi ymrwymo i fod mor agored â phosibl. Credwn fod gan y cyhoedd hawl i wybod sut y gwariwn arian cyhoeddus a sut y gwnawn benderfyniadau ariannu. Mae manylion ein polisi yma.

Rydym ni wedi'n rhestru fel awdurdod cyhoeddus dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn ôl y gyfraith, efallai y bydd yn rhaid inni gynnig eich dogfennau cais a gwybodaeth am ein hasesiad i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am eu gweld dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Ni fyddwn yn rhyddhau'r rhannau o'r dogfennau a eithrir dan y Ddeddf. Gweler y wefan Rhyddid Gwybodaeth am fanylion.

## Cwyno

Os nad ydych yn hapus am sut rydym ni'n delio â'ch cais, mae copi o'n gweithdrefn Gwyno yma.

Dim ond os nad ydym wedi dilyn ein proses wrth ddelio â'ch cais y gallwch gwyno. Ni allwch gwyno yn erbyn y penderfyniad.

## Atal twyll

Bydd gwybodaeth o'r broses ymgeisio yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian a dilysu hunaniaeth pobl. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn ein Polisi Preifatrwydd isod.

## Diogelu data

Mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'n rhwymedigaethau a'n cyfrifoldebau dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Maent yn rheoleiddio sut rydym ni'n casglu, rheoli, rhannu a storio data personol a'ch hawliau mewn perthynas â'n rheolaeth o'ch data.

Dyma ragor o wybodaeth: Polisi Preifatrwydd

Ni fyddwn yn datgelu data Personol na Phersonol Sensitif (yn ôl diffiniad y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol) heb eich caniatâd oni bai bod rhwymedigaeth bwysicaf yn wir (fel rhwymedigaeth gyfreithiol).